**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Ymchwilio Craffu - Cydraddoldebau

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 28 Ionawr 2021 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| S M Jones | T J Hennegan | Y V Jardine |

**Mynychwyr eraill**
L Gibbard

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Rhian Millar | Cydlynydd Ymgynghoriadau |
| Lee Wenham | Bennaeth Cyfathrebu a Chynnwys Cwsmeriaid |
| Michelle Roberts | Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): Dim

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**
Dim

2 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**
Dim

3 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

4 **Ymchwilio Craffu - Cydraddoldebau - Effaith ac adroddiad dilynol**

Daeth y Cynghorydd Louise Gibbard, Aelod y Cabinet dros Gymunedau Gwell, Lee Wenham, Pennaeth Cyfathrebu a Marchnata a Rhian Millar, y Cydgysylltydd Ymgynghori, i gyfarfod y Panel a chyflwynwyd adroddiad ganddynt a oedd yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion sy'n deillio o'r ymchwiliad craffu hwn. Nodwyd y canlynol:

- Cafodd Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2020/24 ei ddatblygu a'i gyhoeddi ym mis Ebrill 2020. Datblygwyd y cynllun yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac mae'n ymgorffori argymhellion allweddol yr Ymchwiliad Craffu
- Mae Bwrdd Cydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol strategol newydd wedi'i sefydlu. Bydd gan y bwrdd gyfrifoldeb allweddol am y camau gweithredu a'r

argymhellion yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Ymchwiliad Craffu. Bydd y bwrdd hefyd yn gyfrifol am Genedlaethau'r Dyfodol (yn enwedig y saith maes newid a nodwyd gan y Ddeddf). Mae hyn yn newid allweddol yn y strwythur i ddarparu Cydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol ar draws y cyngor. Mae swydd i gefnogi'r bwrdd hefyd wedi'i chymeradwyo ac rydym yn bwriadu gwneud apwyntiad yn ystod y misoedd nesaf.

- Mae pandemig COVID-19 wedi dod â heriau sylweddol i'r cyngor. Yn ystod y 10 mis diwethaf bu'n rhaid i swyddogion symud ffocws i sicrhau bod gwasanaethau'r cyngor yn cael eu cynnal a bod y bobl fwyaf diamddiffyn yn cael eu cefnogi yn ystod yr argyfwng. Mae'r newid ffocws hwn wedi arwain at ohirio neu atal rhai meysydd gwaith a allai effeithio ar sut y mae rhai o'r camau gweithredu wedi'u datblygu hyd yma.
- Mae rhai enghreifftiau o'r gwaith sydd wedi'i wneud i gefnogi cymunedau a grwpiau diamddiffyn yn Abertawe dros y cyfnod hwn yn cynnwys y canlynol:
    - Symudodd 4,500 o staff y cyngor i weithio gartref gan ddefnyddio technoleg ddigidol
    - Adleolwyd 221 ac ailbwrpaswyd dros 300 o staff y cyngor i wasanaethau hanfodol/cymorth
    - Crëwyd canolfannau gofal plant brys mewn 60 o leoliadau ysgol
    - Sefydlwyd gwasanaethau prydau ysgol am ddim • Adolygwyd pecynnau gofal cymdeithasol i gyfyngu ar gyswllt diangen
    - Sicrhawyd bod dros 140 o weithwyr gofal cymdeithasol ychwanegol ar gael
    - Agorwyd dwy ganolfan gofal brys ychwanegol
    - Ategwyd cadwynau cyflenwi cyfarpar amddiffyn personol a nodwyd cyflenwyr newydd
    - Sefydlwyd trefniadau cyflenwi cyfarpar amddiffyn personol i gefnogi holl leoliadau gofal cymdeithasol Bae Abertawe
    - Sefydlwyd cymorth brys i bobl ddigartref
    - Sefydlwyd rhwydweithiau cyflenwi a dosbarthu bwyd
    - Recriwtiwyd dros 1,400 o wirfoddolwyr lleol
    - Sefydlwyd gwasanaethau cymorth gwarchod gan gynnwys llinell gymorth bwrpasol, dosbarthu bwyd a meddyginiaeth, gweithwyr ardal leol.
- Mae llawer o bethau i'w rhoi ar waith o hyd o'r argymhellion ac mae'n bosib na fydd llawer byth yn gwbl gyflawn gan eu bod yn parhau i gael eu hystyried a'u gwella.
- Mae COVID-19 wedi agor llwybrau cyfleoedd newydd hefyd gan gynnwys y defnydd cynyddol o gyswllt rhithwir, ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd. Mae llawer o wersi wedi'u dysgu o'r ffyrdd newydd hyn o weithio.
- Mae'r cynllun strategol yn cael ei roi ar waith ond ni fydd rhai o'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â hyn byth yn cael eu 'gwneud' - bydd yn ymwneud â gwelliant parhaus. Mae newidiadau ac esblygiad bob amser yn yr agenda cydraddoldebau felly mae angen i ni barhau i symud gyda'r agenda hon.
- Cytunodd y panel y bu camau cadarnhaol ymlaen gyda'r argymhellion, yn enwedig creu'r Bwrdd Cydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol newydd a'r gefnogaeth gysylltiedig. Bydd hyn a'r gwaith arall a wnaed hyd yma yn darparu sylfaen dda ar gyfer symud ymlaen allan o COVID ac i ysgogi gwelliannau yn y tymor canolig a'r tymor hwy.
- Cytunodd y Panel i gyfarfod eto ym mis Tachwedd 2021 i edrych yn fanylach ar y cynnydd a wnaed ac effaith yr ymchwiliad.